
# Y Gell Cyngor Technegol

# Crynodeb o'r Cyngor

## 30 Ebrill 2021



© Crown copyright 2021

**Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor**

30 Ebrill 2021

**Crynodeb o'r prif bwyntiau**

- **Mae nifer yr achosion yn parhau i syrthio ar lefel genedlaethol**, gyda gostyngiad o 26.5% i 10.8 o achosion fesul 100k o'r boblogaeth, gan ddod â Chymru o fewn trothwy'r nifer isaf o achosion. Ceir cryn amrywiaeth ar lefel ranbarthol, er bod lefel y digwyddedd achosion yn gyffredinol isel.

- Mae'r amcangyfrifon o $R_t$ a chyfraddau twf yn dod yn gynyddol ansicr wrth i gyfnodau yn yr ysbyty a marwolaethau gyrraedd lefelau isel, gyda chyfran uwch o achosion o ganlyniad i glystyrau o frigiadau o achosion. Ar hyn o bryd, gallai fod yn fwy defnyddiol edrych ar fesuriadau sy'n gysylltiedig â digwyddedd a chyffredinrwydd na $R_t$.

- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o $R_t$ ar gyfer Cymru gan **SAGE** ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 13 Ebrill rhwng **0.8 a 1.0** (cyfwng hyder o 90%). Ar 28 Ebrill, mae'r $R_t$ fel y'i hamcangyfrifir gan **Iechyd Cyhoeddus Cymru** (PHW) ar gyfer y cyfnod o bythefnos sy'n dod i ben ar 23 Ebrill, sy'n defnyddio data achosion yn unig, yn **0.81** (cyfwng hyder o 95%: 0.74 i 0.87).

- Fel yr adroddwyd gan PHW, fel ag yr oedd y sefyllfa ar 30 Ebrill, mae dros **1.8 miliwn o ddosau cyntaf** o frechlyn COVID-19 a thros **0.7 miliwn o ail ddosau** wedi cael eu rhoi yng Nghymru. Golyga hyn fod tua 80% o'r boblogaeth yng Nghymru yn awr wedi derbyn o leiaf un dos o frechlyn COVID-19.

- Ar gyfer yr wythnos o 18 i 24 Ebrill 2021, mae'r Arolwg Heintiadau COVID-19 yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yn y gymuned yng Nghymru wedi syrthio'n sylweddol i tua **1 person o bob 1,570** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 4,610 i 1 o bob 740).

- Mae'r amcangyfrifon diweddaraf mewn perthynas â gwrthgyrff gan ONS yn awgrymu, rhwng 5 a 11 Ebrill, fod **61% o'r boblogaeth 16 + oed yng Nghymru wedi cael canlyniad prawf positif ar gyfer gwrthgyrff COVID-19** (cyfwng hyder o 95%: 55.9% i 66.5%).

- Fel ag yr oedd y sefyllfa ar 30 Ebrill, yr Amrywiolyn sy'n Peri Pryder "VOC-20DEC-01" yw'r amrywiolyn cryfaf yng Nghymru o hyd, gyda 11,604 (+186 ers yr adroddiad diwethaf) o achosion wedi'u canfod hyd yma (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yng Nghaint). Nid oes unrhyw achos arall o Amrywiolynnau sy'n Peri Pryder (VoC) neu Amrywiolynnau sy'n Destun Ymchwiliad (VUI) wedi cael eu canfod yng Nghymru yn ystod y 7 diwrnod a ddaeth i ben ar 30 Ebrill.

- Mae'r data IPSOS MORI diweddaraf ar lefelau cydymffurfio â'r cyfyngiadau yn dangos gostyngiad yn nifer y rheini sy'n teithio dim ond pan fo'n gwbl hanfodol, er bod lefelau cydymffurfio yn parhau i fod yn uchel ac mae mwyafrif uchel yng Nghymru yn parhau i gadw pellter cymdeithasol oddi wrth eraill pan fyddant allan yn yr awyr agored. Mae cyfran y rheini sydd o'r farn bod y coronafeirws yn fygythiad difrifol iddynt hwy eu hunain ac i'w gwlad wedi syrthio i'r lefelau isaf a gofnodwyd hyd yma.

- Mae cynnydd pellach wedi bod mewn data symudedd wedi i'r cyfyngiadau ar deithio gael eu codi, gyda'r ysgolion hefyd yn dychwelyd a manwerthu nad yw'n hanfodol wedi ailagor ar 12 Ebrill, er bod symudedd o ran y gweithle, manwerthu a hamdden a thrafnidiaeth gyhoeddus yn parhau'n is na'r lefelau sylfaenol a welwyd ym mis Ionawr 2020.
- Mae'r prif faterion a allai achosi ymchwydd sylweddol o'r newydd o ran niwed sy'n gysylltiedig â COVID-19 fel a ganlyn: trosglwyddiad eang o amrywiolynnau sy'n dianc rhag effaith brechlyn a/neu sy'n dianc rhag ymateb imiwnyddol; pobl yn rhoi'r gorau i ymddygiad cadw pellter cymdeithasol; neu, i raddau llai, newid yn y cyflenwad o'r brechlyn neu ostyngiad sylweddol yn nifer y rhai a fydd yn cael eu brechu. Rhaid monitro amrywiolynnau newydd ar gyfer effeithiau gwahaniaethol hefyd, er enghraifft trosglwyddadwyedd ymhlith plant. Bydd parhau i gadw gwyliadwriaeth yn hanfodol er mwyn deall trywydd yr haint yng Nghymru a lleihau niwed ac anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag iechyd ac nad ydynt yn gysylltiedig ag iechyd.

**Papurau TAC/ SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon:**

- SAGE: EMG Transmission Group: Insights on transmission of COVID-19 with a focus on the hospitality, retail and leisure sector, 8 Ebrill 2021
- SAGE: KCL and Bristol: Engagement with daily testing instead of quarantine following possible exposure to SARS-CoV-2, 11 Mawrth 2021
- SAGE: ISARIC4C and CO-CIN: Hospitalised vaccinated patients during the second wave - update April 2021, 22 Ebrill 2021
- SAGE: ISARIC4C and CO-CIN: Hospitalised patients stratified by vaccination tier in second wave, 22 Ebrill 2021
- SAGE: PHE: Investigation of novel SARS-CoV-2 variants of concern (England) - Technical briefing 9, 22 Ebrill 2021
- SAGE: Dynamic CO-CIN report to SAGE and NERVTAG (recent cases), 22 Ebrill 2021
- SAGE: NERVTAG: note on growth rate of SARS-CoV-2 B.1.1.7, 22 Ebrill 2021
- SAGE: SPI-M-O: Consensus statement on COVID-19, 14 Ebrill 2021
- SAGE: SPI-M-O: Medium-term projections, 14 Ebrill 2021